**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

20 Hydref 2025

Annwyl Huw,

**Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Medi 2025 – Prosesu Bwyd**

Diolch ichi unwaith eto am ddod i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 24 Medi ar gyfer ein hymchwiliad i Brosesu Bwyd. Fel y trafodwyd ar ddiwedd y sesiwn, roedd sawl cwestiwn ynghylch caffael cyhoeddus na chafwyd amser i'w trafod, y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ateb ysgrifenedig iddynt. Wrth drafod eich tystiolaeth ar ôl y sesiwn, nododd y Pwyllgor hefyd ambell gwestiwn dilynol, sydd wedi'u cynnwys isod.

**Caffael cyhoeddus – bwyd a diod Cymru**

- Rydych yn tynnu sylw at y Ddeddf Caffael a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sy'n ceisio cefnogi "cadwyni cyflenwi lleol i gynyddu faint o fwyd a diod Cymru a brynir". Rydym yn cael ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau i gefnogi'r ail o'r Deddfau hynny. Pryd y bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi?

- Mae rhanddeiliaid yn dweud eu bod am gael eglurder a chymorth ynghylch sut i weithredu'r gofynion newydd. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau contractio i'w helpu i wneud y mwyaf o'r manteision posibl a fydd yn dod yn sgil y ddeddfwriaeth newydd?

- Mae eich papur yn tynnu sylw at fentrau yn Ynys Môn a Chaerffili i roi mwy o fwyd o Gymru ar fwydlenni ysgolion. Mae hefyd yn cydnabod yr her o ehangu cynlluniau peilot

llwyddiannus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ledaenu arferion da ledled Cymru?

**Bwyta Cig**

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth – yn benodol gan Jose Peralta o Hybu Cig Cymru – ynghylch yr anghysondeb rhwng gostwng nifer y da byw a chyfraddau bwyta cig. Mae’r Pwyllgor wedi clywed nad oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y byddwn yn gweld gostyngiad mewn cyfraddau bwyta cig a fydd unman yn agos at gyfradd y lefelau dadstocio a ddisgwylir. Yn ddealladwy, mae hyn yn peri pryder ynghylch ymrwymiad Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net yn ogystal â'r effaith ar ffermydd Cymru, oherwydd y bydd y sefyllfa hon, mewn gwirionedd, yn arwain at fwyta cynnyrch wedi'i fewnforio sydd ag ôl troed carbon uwch yn lle cig lleol carbon isel. Felly, hoffai'r Pwyllgor wybod a yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y blaenoriaethau hyn sy’n gwrthdaro, a deall beth y mae'n bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau hyn erbyn 14 Tachwedd 2025.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg